ASERA

CYMDEITHAS AWDURDODAU PERTHNASOL MÔR HAFREN

Môr Hafren
Safle Morwrol Ewropeaidd

Cynllun Rheoli Crynodeb Gweithredol

Medi 2004

Safle morwrol Môr Hafren
Cynllun Rheoli

Lluniwyd gan Steve Knowles
Ar ran Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Môr Hafren (ASERA)
Medi 2004

Ffôn: 029 20 879111
e-bost: KnowlesS@Caerdydd.ac.uk
gwe: http://www.severnestuary.net/asera

Argraffwyd gan Infographics – Bro Morgannwg

Cydnabyddiaeth y clawr a ffotograffau:
Lluniau'r clawr © Chris Gomersall RSPB
Chwiw ym Mae Bridgwater © English Nature
Pibydd Rhuddgoch ar y lan © English Nature
Elyrch Bewick © WWT Slimbridge
Pysgota o'r lan yn Weston-Super-Mare © Don Metcalfe, Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Hafren
Angorfeydd iot ar Afon Axe © Partneriaeth Môr Hafren
Rasio iotiau ar Afon Hafren © Don Sutherland, Y Gymdeithas Hwylio Iot Frenhinol
Gwylio adar ar ran uchaf Hafren © WWT Slimbridge

Cydnabyddiaeth

Wrth lunio'r cynllun rheoli hwn, bu cryn ymgynghori ag awdurdodau perthnasol a chymwys, aelodau'r Grŵp Ymgynghorol a diddordebau eraill. Gwerthfawrogwn yn ddiolchgar y gefnogaeth a gafwyd a'r amser a roddwyd gan swyddogion penodol ac aelodau'r sefydliadau hyn. Roedd yn hanfodol ar gyfer lunio'r ddogfen hon.

Môr Hafren Safle Morwrol Ewropeaidd

Cynllun Rheoli

Crynodeb Gweithredol

Pennwyd Môr Hafren yn safle morwrol Ewropeaidd (EMS) o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Mae Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Môr Hafren (ASERA) wedi cydnabod mai dull cydlynol, ar y cyd rhwng asiantaethau yw'r dull mwyaf effeithiol ac economaidd o lunio cynllun rheoli ar gyfer EMS Môr Hafren.

Aelodaeth ASERA

Aelodau Llawn Amser ASERA sy'n cyfrannu (adeg argraffu)

Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain
Awdurdod Porthladd Bridgwater
Cyngor Dinas Bryste
Dyfrffyrdd Prydain, Sharpness
Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg
Cyngor Caerdydd
Awdurdod Porthladd Caerdydd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dŵr Cymru
English Nature
Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyngor Dosbarth Fforest y Ddena
Cyngor Sir Caerloyw
Ymddiriedolwyr Porthladd Caerloyw
Bwrdd Draenio Mewnol Lower Axe
Bwrdd Draenio Mewnol Lower Brue
Bwrdd Draenio Mewnol Hafren Isaf
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
Comisiynwyr Porthladd Casnewydd
Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf
Cyngor Dosbarth Sedgemoor
Severn Trent Water
Cyngor Sir Gwlad yr Haf
Cyngor de Sir Gaerloyw
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
Bwrdd Draenio Dosbarth Stockland
Cyngor Dosbarth Stroud
Cwmni Porthladd Bryste
Gwasanaeth Goleudy Tŷ'r Drindod
Cyngor Bro Morgannwg
Wessex Water
Bwrdd Draenio Mewnol West Mendip

Cyn-aelodau nad ydynt yn cyfrannu ar hyn o bryd

Bwrdd Draenio Mewnol Gogledd Gwlad yr Haf
Bwrdd Draenio Dosbarth Cannington & Wembdon
Cyngor Dosbarth Gorllewin Gwlad yr Haf

Awdurdodau Perthnasol nad ydynt yn cyfrannu

Bristol Water

Awdurdodau perthnasol nad ydynt yn cyfrannu sydd wedi darparu mewnbwn i'r cynllun rheoli

Bwrdd Draenio Dosbarth Bridgwater & Pawlett
Bwrdd Draenio Mewnol Gordano Valley

Cynnwys

1. Dynodiadau Môr Hafren 1

2. Cynlluniau Rheoli ac ASERA 1

2.1 Gweithgareddau, cynlluniau a phrosiectau 1

2.2 Cynllun Rheoli ac Awdurdodau Perthnasol Unigol 1

3. Pwrpas y cynllun rheoli hwn 2

4. Proses y cynllun rheoli 2

4.1 Gweithgareddau a nodwyd yn rhai sy'n debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol 2

4.2 Gweithgareddau sy'n cael effaith anhysbys 3

4.3 Gweithgareddau a nodwyd yn rhai nad ydynt â'r potensial i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol 4

4.4 Cynlluniau a Phrosiectau 4

4.5 Cynllun gweithredu 4

5. Gweithredu'r cynllun rheoli 4

5.1 Awdurdodau Perthnasol 4

5.2 ASERA 4

5.3 Adrodd ar y cynllun rheoli 5

5.4 Gweithgareddau i swyddog ASERA 5

6. Cynlluniau gweithredu 6

Acronymau

AGM	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	**IDB**	Bwrdd Draenio Mewnol
ASERA	Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol ôr Hafren Authorities	**LA**	Awdurdod Lleol
CCW	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	**PROW**	Tramwyfeydd Cyhoeddus
cSAC	ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig	**pSAC**	adral cadwraeth arbennig bossibl
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd	**SAC**	Ardal Cadwraeth Arbennig
EMS	Safle Morwrol Ewropeaidd	**SEP**	Partneriaeth Môr Hafren
EN	English Nature	**SPA**	Ardal Cadwraeth Arbennig
GHT	Ymddiriedolwyr Porthladd Caerloyw	**TBPC**	Cwmni Porthladd Bryste
GIS	Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol		

Bydd y cynllun rheoli hwn yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu amodau, rheolaeth a gwybodaeth am y safle sy'n newid. Er mwyn sicrhau bod cynnwys y ddogfen hon yn ddiweddar, bydd adenda yn cael eu llunio yn ôl y gofyn. Pan fydd adenda'n cael eu llunio, a wnewch chi ddefnyddio'r ddogfen isod yn gofnod.

Addasiadau i'r Cynllun Rheoli

Testun Newydd	*Tudalennau sydd wedi eu heffeithio*	*Newidiwyd gan*	*Dyddiad y newidiad*

1. Dynodiadau Môr Hafren

Mae Môr Hafren yn cefnogi poblogaethau o adar gwyllt sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd, ac er mwyn cydnabod hyn, pennwyd y Môr yn Ardal Gwarchod Arbennig (SPA) yn 1995. Mae Môr Hafren hefyd yn safle Ramsar ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl (pSAC). Am ragor o wybodaeth ar y disgrifiad o'r safle a rhesymau am y dynodiad, gweler pennod 4 o'r cynllun rheoli.

Chwiw ym Mae Bridgwater

Nodweddion SPA Dynodedig

Rhywogaethau (nodweddion)

- Poblogaethau rheolaidd o rywogaethau Atodiad 1 sy'n rhyngwladol bwysig: alarch Bewick.
- Poblogaethau rheolaidd o 5 rhywogaeth o adar ymfudol sy'n rhyngwladol bwysig: hwyaden yr eithin, pibydd y mawn, pibydd coesgoch, gŵydd dalcen-wen Ewropeaidd a'r hwyaden lwyd.
- Casgliad o adar dŵr gaeafol sy'n rhyngwladol bwysig.

Cynefinoedd (is-nodweddion)

- Traethellau lleidiog a thywodlyd rhynglanwol.
- Cerrig mân a glannau caregog.
- Morfeydd heli.

2. Cynlluniau Rheoli ac ASERA

Mae gan yr awdurdodau perthnasol, a'r sefydliadau hynny a chanddynt bwerau neu swyddogaethau sydd yn cael, neu a allai gael effaith ar SPAs ac SACs morwrol, ddyletswydd statudol i sicrhau eu bod yn gweithredu eu swyddogaethau er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae Llywodraeth y DU o'r farn, yn arbennig yn yr amgylchedd morwrol, mai cynllun rheoli yw'r fecanwaith fwyaf priodol i'r awdurdodau perthnasol ddarparu gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd er mwyn cadw rhywogaethau a chynefinoedd yr ardaloedd penodedig. Oherwydd maint a chymhlethdod mawr ardal Môr Hafren, mae'r Awdurdodau Perthnasol wedi cydnabod mai dull cydlynol, ar y cyd rhwng asiantaethau fyddai'r dull mwyaf ymarferol ac economaidd o lunio cynllun rheoli ar gyfer Môr Hafren. Yn 1998 fe wnaethant ffurfio Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Môr Hafren (ASERA) er mwyn cyrraedd y nod hwn. Yn unol ag argymhellion y Llywodraeth, fe wnaeth ASERA helpu i lunio Grŵp Ymgynghorol o ddefnyddwyr a grwpiau diddordeb o ledled ardal y Môr.

2.1 Gweithgareddau, cynlluniau a phrosiectau

Lluniwyd y cynllun rheoli er mwyn gosod y fframwaith y bydd pa 'weithgareddau' (a reolir gan awdurdodau cymwys neu berthnasol yn barhaol) yn cael eu rheoli o'i mewn, a hynny mewn dulliau sy'n gydnaws ag amcanion cadwraethol y safle. Cynlluniau a Phrosiectau (yn gyffredinol unrhyw weithred sy'n gofyn i gais gael ei wneud ar gyfer cydsyniad statudol penodol, awdurdodi, trwydded neu ganiatâd arall). Delir â'r rhain ar wahân o dan y Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ayb) 1994, a adwaenir yn fwy cyffredin fel y Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly yn gyffredinol, nid ydynt yn rhan o'r cynllun rheoli hwn.

2.2 Cynllun Rheoli ac Awdurdodau Perthnasol Unigol

Polisi'r llywodraeth yw mai'r awdurdodau perthnasol sy'n gyfrifol am fonitro gweithredu'r mesurau hynny o dan y cynllun rheoli sy'n cwympo o dan eu swyddogaethau. Felly, cyfrifoldeb pob awdurdod perthnasol yw gweithredu'r cynllun rheoli hwn.

Dylid nodi mai un rhan yn unig yw cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd yr Ardal Gwarchod Arbennig (SPA) a'r Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl (pSAC) o swyddogaethau lu pob un o'r awdurdodau perthnasol, sydd i gyd yn bodoli yn bennaf at ddibenion eraill, ac sy'n gweithredu o dan ddeddfwriaeth arall. Fodd bynnag, mae holl aelod awdurdodau perthnasol ASERA wedi ymrwymo i gadwraeth y rhywogaethau a chynefinoedd penodedig ac i weithredu'r cynllun rheoli'n llwyddiannus.

3. Pwrpas y cynllun rheoli hwn

Bod yn gynllun rheoli ar gyfer safle morwrol Môr Hafren; o dan y cynllun hwn fe fydd swyddogaethau'r awdurdodau perthnasol yn cael eu gweithredu fel bo modd sicrhau, mewn perthynas â'r safle, cydymffurfiaeth â gofynion Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar.

Yn seiliedig ar Reoliad 34 (1) y Conservation (Natural Habitats & c.) Regulations 1994 a chyfansoddiad ASERA

Severn Estuary Special Protection Area (SPA)

Mae'r SPA yn cynnwys y tir hwnnw o fewn cyfrifoldebau awdurdodau lleol sydd uwchben y llinell Dŵr Isaf Cyfartalog (Oherwydd natur ddeinamig yr amgylchfyd aberol y bydd gwaelodion a banciau tywod yn cyson symud, bydd y Dŵr Isaf Cyfartalog yn symud).

Mae'r cynllun rheoli hwn ar gyfer Môr Hafren yn gynllun rheoli ar gyfer yr SPA yng nghyd-destun materion pSAC a Ramsar sy'n parhau. Pe bai'r pSAC yn cael ei gyflwyno i Gomisiwn Ewrop ar ffurf cSAC rywbryd yn y dyfodol neu pe bai angen cynnwys dynodiad Ramsar o fewn y cynllun, bydd ASERA yn penderfynu sut orau mae mynd i'r afael â rheoli nodweddion ac is-nodweddion cadwraeth natur ychwanegol.

Mae'r cynllun rheoli hwn yn gosod y fframwaith y bydd gweithgareddau'n cael eu rheoli o'i mewn, naill ai'n wirfoddol neu drwy reoleiddio, mewn ffyrdd sy'n gydnaws â chyflawni diddordebau cadwraeth natur. Nid yw'r cynllun rheoli yn bwriadu bod yn ddogfen statig, ond yn broses barhau sy'n cynorthwyo penderfynu ac sy'n cyson esblygu i ystyried gwybodaeth newidiol ar weithgareddau, materion, ymarferion rheoli ac ymrwymiadau cyfreithiol.

4. Proses y cynllun rheoli

Seiliwyd datblygu'r cynllun rheoli o gwmpas cyfres o weithdai tri diwrnod. Yn gyntaf, fe wnaeth awdurdodau perthnasol adnabod pa weithgareddau roeddent yn gyfrifol amdanynt o gwmpas Môr Hafren. Yna, fe wnaethant ddarparu gwybodaeth ar ble'r oedd y digwyddiadau, a sut y cawsant eu rheoli. Fe wnaeth yr asiantaethau cefn gwlad i gyd adolygu'r ffurflenni gweithgarwch cyflawn ac asesu, o'u safbwynt, potensial gweithgaredd i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i safle. Fe seiliwyd yr asesiad hwn ar sensitifrwydd a dangos y nodweddion a'r is-nodweddion penodedig i'r gwahanol weithgareddau yng ngwahanol ardaloedd yr awdurdodau perthnasol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod yr asesiad hwn wedi ei seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau perthnasol ar y pryd. Mewn rhai achosion, roedd yr wybodaeth yn anghyflawn ac mewn achosion eraill ni ddarparwyd gwybodaeth o gwbl. Yn yr amgylchiadau hyn, seiliwyd yr asesiad ar wybodaeth orau'r asiantaethau cefn gwlad yn unig. Gall fod, yng ngoleuni gwybodaeth bellach, y gall rhai gweithgareddau mewn rhai lleoliadau gael eu hasesu'n wahanol. Yn olaf, cytunwyd ar weithgarwch rheoli er mwyn mynd i'r afael af effeithiau'r gweithgareddau penodol sydd â'r potensial i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i'r safle.

4.1 Gweithgareddau a nodwyd yn rhai sy'n debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol

Fe wnaeth yr asesiad adnabod dau gategori eang o weithgarwch, y bernir, yn ôl eu lefelau cyfredol, eu bod yn debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i nodweddion neu is-nodweddion ar rai o ardaloedd y safle, sef;

a. Hamddena ar dir, a
b. Hamddena ar ddŵr.

Adar Môr Hafren

Elyrch Bewick

Nid yw effeithiau'r gweithgareddau hyn yn digwydd ledled Môr Hafren, ond credir eu bod mewn rhai ardaloedd lleol. Mewn mannau eraill ym Môr Hafren, mae'n bosib na wyddys effeithiau'r gweithgareddau hyn ar hyn o bryd h.y. yn gyffredinol asesir hamddena ar dir a dwr fel F3 (effeithiau anhysbys) ac weithiau F4 (dim effaith hysbys) ar draws rhan fwyaf y Môr, yn hytrach na F5 (effaith hysbys).

Y darpar effeithiau a geir yn sgil hamddena dŵr a thir yw aflonyddu ar adar sy'n bwydo, clwydo a nythu, darpar effaith sbwriel a llygredd cysylltiedig a'r posibilrwydd o golli cynefin i gyfleusterau hamddena. Mynediad a'r aflonyddwch cysylltiedig yw'r brif bryder ac mae'r angen i adnabod yn fwy penodol lle ceir y prif feysydd hamddena ledled Môr Hamdden o ran y nodweddion a'r is-nodweddion o ddiddordeb. Ar hyn o bryd, ystyrir yr ardal o dan awdurdod Cynghorau Gogledd Gwlad yr Haf, Gwlad yr haf, Cyngor Dosbarth Sedgemoor a Chyngor Dosbarth Gorllewin Gwlad yr Haf yn ardal boblogaidd ar gyfer hamddena dwr a thir a chanolbwyntir ymchwil bellach i raddau ac effaith y gweithgareddau hamddena yn y meysydd hyn. Mae'n bosibl y bydd casglu rhagor o wybodaeth a gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau hyn yn y dyfodol ddangos nad ydynt yn achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i'r safle.

4.2 Gweithgareddau sy'n cael effaith anhysbys

Fe wnaeth yr asesiad bennu'r gweithgareddau canlynol yn rhai sydd â mecanwaith hysbys i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i nodweddion yr SPA. Fodd bynnag, mae gwybodaeth annigonol ar hyn o bryd i bennu p'un a ydynt yn achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol ai peidio h.y. a ydynt yn cael effaith anhysbys.

c. Pysgota (hamddena),
d. Trwsio cychod (hamddena),
e. Casglu data gwyddonol,
f. Llygru o ganlyniad i ddiwydiant hanesyddol (Lower Axe a Lower Brue yn unig),
g. Pori,
h. Llif o briffyrdd, a
i. Rheoli gwastraff heb awdurdod, a.
j. Angorfeydd (yn ardal Gogledd Gwlad yr Haf yn unig).

Nid yw'r gweithgareddau hyn o reidrwydd yn effeithio ar y safle cyfan. Mae amseru, dwysedd a natur y gweithgareddau hyn yn amrywio ar draws y safle ac o ganlyniad bydd unrhyw ddirywiad, neu aflonyddwch posibl a achosir ganddynt hefyd yn amrywio ar draws y safle. Bydd casglu gwybodaeth bellach ynghylch y gweithgareddau hyn yn hysbysu barn ynghylch eu heffeithiau tebygol. Yn ogystal, gall arweiniad ar arfer gorau ar gyfer gweithredu a rheoli rhai o'r gweithgareddau hyn helpu i filwriaethu yn erbyn unrhyw effeithiau y gallent fod yn eu cael.

Pysgota o'r lan yn Weston-Super-Mare

Cyfeirir at y gweithgareddau uchod a chanddynt fecanwaith hysbys i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol, ond lle golyga diffyg gwybodaeth bod eu heffeithiau'n anhysbys, ynghyd â gweithgareddau a farnwyd i fod ag effaith arwyddocaol ar y safle (a – i), at ei gilydd yn y cynllun rheoli hwn fel gweithgareddau sydd â'r potensial i achosi dirywiad neu aflonyddwch i nodweddion ac is-nodweddion y safle.

4.3 Gweithgareddau a nodwyd yn rhai nad ydynt â'r potensial i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol

Ar sail yr wybodaeth gyfredol orau sydd ar gael, mae'r holl weithgareddau eraill yn cael eu hystyried i beidio ag achosi dirywio neu aflonyddwch arwyddocaol gan nad oes mecanwaith hysbys iddynt wneud. Ni fydd ar y gweithgareddau hyn angen gweithgarwch pellach a bwrw bod y rheolaeth gyfredol yn parhau. Pan fydd y rheolaeth yn cael ei newid, neu yng ngoleuni rhagor o wybodaeth, dyllid ailasesu effaith y gweithgareddau.

4.4 Cynlluniau a Phrosiectau

Pennwyd rhai cynlluniau a phrosiectau yn rhai â natur barhaus ac ailadroddus. Bydd ASERA yn hwyluso cynhyrchu nodiadau canllaw i gynlluniau a phrosiectau o'r fath lle teimlir y bydd hyn o gymorth i'r awdurdodau perthnasol priodol. Ar hyn o bryd, cynigir llunio canllawiau i'r canlynol:

- Archaeoleg (astudiaethau a diogelu)
- Digwyddiadau a gwyliau
- Gweithgareddau cynnal a chadw ailadroddus
- Rheoli gwastraff heb awdurdod, a
- Chasglu data gwyddonol.

Bydd ar yr holl gynlluniau a phrosiectau a nodir yn ystod y broses cynllun rheoli angen i'r awdurdodau perthnasol sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau 48-53 o'r Rheoliadau Cynefinoedd.

4.5 Cynllun gweithredu

Lluniwyd cynllun gweithredu drafft yn sgil rhagor weithdai'r grŵp sector er mwyn mynd i'r afael â'r gweithgareddau hynny a nodwyd yn rhai â'r potensial i achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i nodweddion yr SPA. Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi gweithgarwch penodol ar gyfer awdurdodau perthnasol a swyddog ASERA. Mae'n darparu dull cyson er mwyn mynd i'r afael â'r gweithgareddau a nodir uchod. Mae'n ystyried y gall gwahanol awdurdodau perthnasol fabwysiadu gwahanol weithgarwch rheoli mewn rhai lleoliadau. Bydd llunio nodiadau canllaw ar gyfer rhai gweithgareddau a chynlluniau a phrosiectau sy'n parhau, yn cynorthwyo i gyflawni'r dull cyson hwn.

5. Gweithredu'r cynllun rheoli

5.1 Awdurdodau Perthnasol

Cyfrifoldeb pob awdurdod perthnasol yw sicrhau ei fod yn gweithredu'r cynllun gweithredu yn ei gyfanrwydd ac unrhyw weithgarwch a nodir ynddo. Mae'r awdurdod perthnasol unigol, neu grŵp o awdurdodau perthnasol wedi nodi, a byddant yn gweithredu rhai gweithgareddau er mwyn mynd i'r afael â darpar effeithiau'r gweithgareddau hynny a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

Mewn rhai achosion pan fydd mwy nag un awdurdod yn gyfrifol am reoli gweithgaredd lle ceir effaith hysbys neu anhysbys ar y safle, neu lle ceir bylchau mewn rheolaeth, mae awdurdodau perthnasol wedi cytuno i weithio'n gydweithredol i fynd i'r afael â'r materion. Bydd dull partneriaeth yn cael ei sicrhau drwy sefydlu grwpiau testun, ac os yn briodol, gellir gwahodd aelodau Grŵp Ymgynghorol neu sefydliadau perthnasol eraill i gymryd rhan. Yna, ceir trafodaethau er mwyn pennu gweithgareddau ac atebion rheoli posibl.

Angorfeydd iot ar Afon Axe

Yn ystod gweithredu'r cynllun rheoli gellir adnabod gweithgareddau mwy penodol gan awdurdodau perthnasol unigol neu grwpiau ohonynt er mwyn mynd i'r afael â rhai gweithgareddau. Gall y gweithgareddau rheoli hyn ddeillio o weithdrefnau/mentrau sydd eisoes yn bod neu gellir eu hysgrifennu'n benodol i'r cynllun rheoli hwn.

5.2 ASERA

Mae'r broses a ymgymerwyd gan ASERA wedi helpu'n sylweddol o ran codi ymwybyddiaeth awdurdodau perthnasol o'u cyfrifoldebau o ran y Rheoliadau Cynefinoedd. Rhagwelir y gall ASERA barhau i alluogi awdurdodau perthnasol i weithredu eu dyletswyddau statudol o ran y dyraniadau cadwraeth natur ar y safle, yn y dull mwyaf effeithlon a chost effeithiol, drwy helpu i weithredu'r cynllun rheoli fel a wnaeth yn ystod ei ddatblygu.

5.3 Adrodd ar y cynllun rheoli

Bydd grŵp Rheoli ASERA yn cgyfarfod yng nghyfarfodydd chwe-misol Cyd-Grwpiau Môr Hafren a drefnir gan Bartneriaeth Môr Hafren. Bydd yr awdurdodau perthnasol yn adrodd ar gynydd y gweithgareddau hyn yn y cyfarfodydd hyn. Bydd awdurdodau perthnasol hefyd yn gyfrifol am adrodd ar y canlynol:

- Newidiadau i arferion rheoli/lleoliad gweithgareddau,
- Newidiadau i gynlluniau/mentrau a ddefnyddir i adeiladu'r cynllun rheoli, a
- Gweithgareddau neu gynlluniau newydd neu ychwanegol.

5.4 Gweithgareddau i swyddog ASERA

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys gweithgareddau i'w hysgwyddo gan swyddog gweithredu'r cynllun rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys cydlynu llunio canllaw fframwaith ar gyfer rhai

Rasio iotiau ar Afon Hafren

gweithgareddau a chynlluniau a phrosiectau a bennir gan yr awdurdodau perthnasol, gwasanaethu Grŵp Rheoli ASERA, y Grŵp Ymgynghorol a grwpiau testun ac yn codi ymwybyddiaeth gyffredinol mewn defnyddwyr o bwysigrwydd y safle a'u heffaith bosibl ar nodweddion y safle.

Mae'r siart lif ganlynol yn amlinellu proses gweithredu y mae ASERA wedi cytuno ceisio ei rhoi ar waith.

Proses Gweithredu



6. Cynlluniau gweithredu

Mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu fecanwaith i'r awdurdodau perthnasol fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gweithgareddau a nodwyd yn rhai sy'n debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol
- Gweithgareddau, na wyddys eu heffeithiau (h.y. mae'r wybodaeth sydd ar gael yn annigonol ar hyn o bryd er mwyn pennu a ydynt mewn gwirionedd yn achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i'r safle ai peidio), a
- Rhai cynlluniau a phrosiectau o natur barhaus ac ailadroddus y bydd ASERA yn hwyluso llunio nodiadau canllaw ar eu gyfer.

Lle bynnag y bydd yn bosibl bydd y gweithgareddau a nodir yn seiliedig ar y dull gwirfoddol yn y lle cyntaf, yn cynnwys cydweithredu a chonsensws eang rhwng sefydliadau. O ran Egwyddor 6 y Ddogfen Sylfaen, bydd is-ddeddfau ychwanegol ond yn cael eu cyflwyno i'r cynllun rheoli pan fydd dulliau gwirfoddol yn annigonol, pan fydd pob dewis arall wedi ei ystyried ac mai dyma'r unig ateb effeithiol.

Gwylio adar ar ran uchaf Hafren (Slimbridge)

Cynllun Rheoli'r Cynllun Gweithredu

Gweithgaredd	Gweithgarwch	Sefydliadau sy'n chwarae rhan	Blaenoriaeth (uchel, canolig, isel)	Amserlen (1, 2 neu 3 blynedd)	Gweithgarwch mewn cynllun, polisi neu dogfen rheoli presennol
Pysgota (arfordir & hamddena cwch)	1. Awdurdodau Lleol & CCW i bennu'r gweithgarwch o'r rhestr isod yn seiliedig ar eu gwybodaeth o'r gweithgaredd hwn ym maes eu hawdurdod a gwybodaeth a ddarparwyd gan y Grŵp Ymgynghorol ym mhrosiect peilot GIS ASERA : a) goruchwyliaeth ac ystod gweithgareddau b) ymchwil er mwyn mynd i'r afael â pherthnasau achosi ac effaith a bylchau eraill yn yr wybodaeth	Cyngor Caerdydd Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf Cyngor de Sir Gaerloyw Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Canolig	2 flynedd	Cynllun Rheoli Gwarchodfa Gwastatir Gwent; Cod Cadwraeth CCW ar gyfer Pysgotwyr Môr; Polisi Pysgodfeydd Môr CCW; CCW Côd y Môr ... i fywyd gwyllt ... i chi.
Archaeoleg (astudiaethau a diogelu)	1. ASERA i hwyluso llunio nodiadau canllaw ar astudio ac amddiffyn archaeoleg mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle.	ASERA English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Cyngor Sir Caerloyw Pwyllgor Ymchwil Gwastatiroedd Môr Hafren Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent	Canolig	2 flynedd	Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau perthnasol.
	2. Awdurdodau lleol i ddilyn canllaw ASERA ar astudio ac amddiffyn archaeoleg lle bydd ar gael, fel y bo'n briodol.	Pob Awdurdod Lleol	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol

Gweithgaredd	Gweithgarwch	Sefydliadau sy'n chwarae rhan	Blaenoriaeth (uchel, canolig, isel)	Amserlen (1, 2 neu 3 blynedd)	Gweithgarwch mewn cynllun, polisi neu dogfen rheoli presennol
Gwella a chynnal a chadw amddiffyn-feydd arfordirol a llifogydd	1. ASERA i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o arfer da Asiantaeth yr Amgylchedd.	ASERA	Canolig	2 flynedd	Ddim yn berthnasol
Casglu data gwyddonol (gan gynnwys cerbydau ac offer)	1. Awdurdodau perthnasol i geisio cyngor gan EN/CCW os yn cynnig ymgymryd â gweithgareddau a allai fod yn niweidiol sy'n gysylltiedig â chasglu data gwyddonol ac i ddilyn canllawiau a luniwyd gan ASERA pan fydd ar gael, fel y bo'n briodol.	Awdurdodau perthnasol priodol	Canolig	Parhaus	Ymgynghori Amgylcheddol Wessex Water EP 124 a Safon Amgylcheddol ES120. Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau penodol.
	2. ASERA i hwyluso llunio nodiadau canllaw ar astudio ar gasglu data gwyddonol mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle.	ASERA English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Awdurdodau sy'n gwirfoddoli Cwmnïau dwr sy'n gwirfoddoli Asiantaeth yr Amgylchedd	Canolig	2 flynedd	Ddim yn berthnasol
Llygredd o ganlyniad i ddiwydiant hanesyddol	1. Ymchwil i effaith bosibl difrifoldeb llygredd metelau trwm mewn sianelau dŵr. Ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn sicrhau beth yw lefelau'r llygredd.	Lower Axe & Lower Brue IDBs	Canolig	2 flynedd	Na
Digwyddiadau /gwyliau	1. ASERA i hwyluso llunio nodiadau canllaw ar reoli digwyddiadau/gwyliau mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle. Bydd hyn yn lwfio am ddigwyddiadau bychan na chafwyd cydsyniad ar eu cyfer.	ASERA Awdurdod Porthladd Caerdydd English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Cyngor de Sir Gaerloyw Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf Cyngor Dosbarth Sedgemoor	Uchel	Blwyddyn	Cynllun Cyfathrebu a Hybu Cyngor Caerdydd; Digwyddiadau chwaraeon a Her Cyngor Cefn Gwlad Cymru yng nghefn gwlad; Cyfranogaeth Gymunedol Cyngor Cefn Gwlad Cymru i fod o fudd i'r Amgylchedd; Safleoedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru o wybodaeth wyddonol arbennig – Canllaw i tirfeddianwyr a thrigolion; Strategaeth Twristiaeth Fforest y Ddena
	2. Awdurdodau perthnasol priodol i weithredu Rheoliadau Cynefinoedd 48-53, fel y bo'n briodol, ac i ddilyn canllawiau ASERA ar reoli digwyddiadau/gwyliau pan fydd ar gael. (Bydd digwyddiadau llai ar ddŵr neu dir na chafodd gydsyniad awdurdod perthnasol yn cael eu hystyried gan y grwpiau testun hamdden dŵr/tir).	Pob Awdurdod Lleol	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol
Pori	1. Asiantaeth yr Amgylchedd i ymgymryd ag archwiliad lle y mae pori'n digwydd ar dir yr Asiantaeth o fewn yr SPA.	Asiantaeth yr Amgylchedd	Canolig	2 flynedd	Ddim yn berthnasol

Gweithgaredd	Gweithgarwch	Sefydliadau sy'n chwarae rhan	Blaenoriaeth (uchel, canolig, isel)	Amserlen (1, 2 neu 3 blynedd)	Gweithgarwch mewn cynllun, polisi neu dogfen rheoli presennol
Llif o briffyrdd	1. Goruchwyliaeth ac ystod y gweithgaredd.	Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Bro Morgannwg	Canolig	2 flynedd	Llawlyfr Gweithredol Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyngor Bro Morgannwg (Pennod 8 Amgylchedd). Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau eraill.
	2. Rhagor o fonitro ar gyflwr y safle.	Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf	Canolig	2 flynedd	Ni ddarparwyd manylion am gynlluniau/polisïau.
	3. Ymgynghori ymhellach ag English Nature	Cyngor Gwlad yr Haf	Canolig	2 flynedd	Ni ddarparwyd manylion am gynlluniau/polisïau
Hamddena tir, gan gynnwys hamddena traeth, gwylio adar, beicio, cerdded ci, golff, marchogaeth ceffylau, is-strwythur (meysydd parcio ayb), chwaraeon modur, mynediad moduron i'r blaendraeth, cerdded.	1. ASERA i sefydlu grŵp testun er mwyn adnabod y prif weithgareddau ac ardaloedd daearyddol lle mae hamddena tir yn debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i nodweddion y safle, os o gwbl; ac i ddatblygu canllaw ar ymgymryd â hamddena tir mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle.	ASERA English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Swyddog Mynediad SEP Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf Asiantaeth yr Amgylchedd (briff gwylio) Aelodau Perthnasol y Grŵp ymgynghorol	Uchel	Blwyddyn	Cyfranogaeth Gymunedol Cyngor Cefn Gwlad Cymru i fod o fudd i'r Amgylchedd, Canllawiau; Safleoedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru o wybodaeth wyddonol arbennig – Canllaw i tirfeddianwyr a thrigolion; Cynllun Rheoli Gwarchodfa Gwastatir Gwent; EN Adolygiad o effeithiau rhyngweithio hamddenol o fewn safleoedd morwrol y DU Adolygiad Gwerth Gorau Cyngor Sir Gaerloyw o PROW & Safleoedd Cefn Gwlad, Cynllun Gwella Perfformiad Cynllun Gweithredu Drafft Twristiaeth Cyngor Dosbarth Stroud Cynllun Gweithredu Lleoedd Gwyrdd Cyngor Dosbarth Stroud Adroddiad Cadwraeth, Mynediad a Hamdden Asiantaeth yr Amgylchedd2001; Polisi Adfywio Mor lywio Asiantaeth yr Amgylchedd 2000. Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau eraill.
	2. Awdurdodau perthnasol priodol i ddilyn canllaw ASERA ar hamddena tir pan fydd ar gael, fel y bo'n briodol.	Awdurdodau perthnasol priodol	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol
Cynnal a chadw carthu (Porth-laddoedd)	1. Bydd porthladdoedd Lloegr yn ystyried gweithgareddau perthnasol yn sgil rhoi terfynol wedd ar brotocol ar gyfer cynnal a chadw carthu yn unol â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Ar hyn o bryd, mae'r protocol drafft argymell bod porthladdoedd yn llunio 'Dogfen gwaelodlin' gychwynnol er mwyn cynorthwyo awdurdodau cymwys i adnabod unrhyw 'effaith arwyddocaol debygol' o ran cynigion neu geisiadau cynnal a chadw carthu yn y dyfodol, gan ystyried unrhyw effeithio mewn-gyfuniad cynigion carthu. Ar hyn o bryd, mae prosiectau peilot yn cael eu cynnal ar dair aber yn Lloegr cyn rhoi terfynol wedd ar y protocol. Bydd llunio'r ddogfen gwaelodlin yn anstatudol ac yn wirfoddol. Bydd porthladdoedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru'n edrych â diddordeb ar ganlyniadau'r astudiaethau peilot a byddant yn dod â'u trefniadau eu hunain gerbron maes o law.	Awdurdodau Porthladdoedd & Harbwr	Canolig	2 flynedd	Ddim yn berthnasol

Gweithgaredd	Gweithgarwch	Sefydliadau sy'n chwarae rhan	Blaenoriaeth (uchel, canolig, isel)	Amserlen (1, 2 neu 3 blynedd)	Gweithgarwch mewn cynllun, polisi neu dogfen rheoli presennol
Cynnal a chadw carthu (IDBs)	1. Byrddau Draenio mewnol i ystyried ymgorffori hyn i gynlluniau rheoli lefelau dŵr y dyfodol os nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys.	Pob IDB	Isel	3 flynedd	Cynllun Rheoli Lefel Dŵr Bwrdd Draenio Mewnol Is Hafren Slimbridge; Dalgylch Bwrdd Draenion Mewnol West Mendip IDB Oldbridge River a Liddy Yeo Rhyne 1997.
Rheoli gwastraff heb awdurdod	1. ASERA i hwyluso llunio nodiadau canllaw ar reoli gwastraff heb awdurdod mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle.	ASERA English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd Angen o hyd i adnabod Awdurdodau Lleol i chwarae rhan.	Canolig	2 flynedd	Protocol Asiantaeth yr Amgylchedd ar Ddymchwel Sbwriel rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol ac Asiantaeth yr Amgylchedd 1998; Cynllun Rheoli Gwastraff Cyngor Caerdydd; Cynllun Gwastraff Lleol Sir Gaerloyw Strategaeth Gwastraff Sir Fynwy (drafft 2004); Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau eraill.
	2. Awdurdodau perthnasol priodol i ddilyn canllaw ASERA ar reoli gwastraff heb awdurdod pan fydd ar gael, fel y bo'n briodol.	Awdurdodau perthnasol priodol	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol
Hamddena ar ddŵr. (gan gynnwys is-strwythur hamddena, canŵio & is-strwythur)	1. ASERA i sefydlu grŵp testun er mwyn adnabod y prif weithgareddau ac ardaloedd daearyddol lle mae hamddena dŵr yn debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch arwyddocaol i nodweddion y safle, os o gwbl; ac i ddatblygu canllaw ar ymgymryd â hamddena tir mewn dull sy'n sympathetig i nodau cadwraethol y safle. Cwmni Porthladd Bryste fydd cynrychiolydd sector porthladdoedd ar gyfer y grŵp testun hwn.	ASERA English Nature Cyngor Cefn Gwlad Cymru Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf Cwmni Porthladd Bryste Asiantaeth yr Amgylchedd Aelodau Perthnasol y Grŵp ymgynghorol	Uchel	Blwyddyn	Cynllun Defnyddio Dŵr Cyngor Caerdydd; Cyfranogaeth Gymunedol Cyngor Cefn Gwlad Cymru i fod o fudd i'r Amgylchedd, Canllawiau; Safleoedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru o wybodaeth wyddonol arbennig – Canllaw i tirfeddianwyr a thrigolion; Cynllun Rheoli Gwarchodfa Gwastatir Gwent; EN Adolygiad o effeithiau rhyngweithio hamddenol o fewn safleoedd morwrol y DU; Is-ddeddfau Harbwr Caerloyw; Polisïau Cynllun Rheoli Harbwr Caerloyw; Nodiadau Canllaw Diogelwch GHT ar gyfer Llongau Bychain sy'n mor deithio ar Afon Hafren a Môr Hafren; Cyngor Peilota TBPC i Longau Bychain; Ni ddarparwyd manylion o gynlluniau/polisïau eraill.
	2. Awdurdodau perthnasol priodol i ddilyn canllaw ASERA ar hamddena dŵr pan fydd ar gael, fel y bo'n briodol.	Awdurdodau perthnasol priodol	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol

Gweithgaredd	Gweithgarwch	Sefydliadau sy'n chwarae rhan	Blaenoriaeth (uchel, canolig, isel)	Amserlen (1, 2 neu 3 blynedd)	Gweithgarwch mewn cynllun, polisi neu dogfen rheoli presennol
Cynnal a chadw sianelau dŵr (chwynnu ayb)	1. EN i gadarnhau p'un a yw cynlluniau rheoli dŵr yn gynllun/prosiect. Os ydynt, IDBs i ystyried ymgorffori'r gweithgaredd hwn i gynlluniau rheoli lefel dŵr yn y dyfodol.	EN Pob IDB	Isel	3 flynedd	Ddim yn berthnasol
Gweithredu'r cynllun rheoli	1. Awdurdodau perthnasol i adrodd ar gynydd gweithgarwch penodol.	Yr holl Awdurdodau perthnasol priodol	Uchel	Yng nghyfarfod chwe-misol ASERA	Ddim yn berthnasol
	2. Awdurdodau perthnasol i hysbysu am unrhyw newidiadau i gynlluniau/mentrau sydd wedi eu defnyddio i adeiladu'r cynllun rheoli.	Yr holl Awdurdodau perthnasol priodol	Uchel	Yng nghyfarfod chwe-misol ASERA	Ddim yn berthnasol
	3. Awdurdodau perthnasol i gwblhau ffurflen gweithgarwch ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd.	Yr holl Awdurdodau perthnasol priodol	Uchel	Parhaus	Ddim yn berthnasol
	4. Awdurdodau perthnasol i adolygu ffurflenni gweithgarwch cyflawn am unrhyw newidiadau i ymarferion rheoli, lleoliad gweithgareddau, ayb.	Yr holl Awdurdodau perthnasol priodol	Uchel	Bob blwyddyn, yng nghyfarfod ASERA	Ddim yn berthnasol
	5. Awdurdodau perthnasol i gymhwyso Rheoliadau cynefinoedd yn ystod proses y cynllun rheoli ac a bennir bellach yn gynlluniau/prosiectau.	Yr holl Awdurdodau perthnasol priodol	Uchel	Parhaus	Ddim yn berthnasol
Gweithgarwch arall ASERA	1. Cynnal a gwasanaethu Grŵp Rheoli Presennol ASERA, y Grŵp Ymgynghorol, Grwpiau Testun a & AGM.	Swyddog ASERA	Uchel	Parhaus	Ddim yn berthnasol/A
	2. Diweddaru'r cynllun rheoli a'r safle we.	Swyddog ASERA	Uchel	Yn chwe-misol	Cynllun rheoli ar gyfer safle morwrol Ewropeaidd Môr Hafren.
	3. Annog yr holl awdurdodau perthnasol i adolygu ffurflenni gweithgarwch bob blwyddyn a hysbysu'r asiantaethau cefn gwlad am unrhyw newidiadau.	Swyddog ASERA	Uchel	Bob blwyddyn	Ddim yn berthnasol
	4. Parhau i godi ymwybyddiaeth o ddynodiad y safle a'r goblygiadau ar gyfer awdurdodau perthnasol a defnyddwyr.	Swyddog ASERA	Uchel	Parhaus	Ddim yn berthnasol
	5. Datblygu nodiadau canllaw ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw ailadroddus.	Swyddog ASERA	Canolig	Parhaus	Ddim yn berthnasol

Am y cynllun rheolaeth cyflawn yna cysylltwch â'r tudalen cyhoeddiadau ar safle we ASERA (www.severnestuary.net/asera)